



Polisi Ffrydio Byw

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*



Cyflwyniad

Pan nad yw disgyblion yn gallu bod yn bresennol yn yr ysgol oherwydd effeithiau COVID-19 gall Ffrydio Byw roi mynediad amhrisiadwy iddynt i addysg. Mae Ffrydio Byw yn gyfrwng i:

- gysylltu gyda wyneb cyfarwydd o'r ysgol;
- gefnogi lles ac ymgysylltiad y dysgwyr;
- ddysgwyr holi am unrhyw agwedd o'r gwaith sydd wedi ei osod a thrwy hynny, adennill hyder yn eu gallu.

Prif Egwyddorion

- Dylai unrhyw ffrydio byw ddigwydd yn wirfoddol – ar ran y staff a'r dysgwyr/myfyrwyr.
- Dylai unrhyw ffrydio byw ddigwydd trwy blatfform Microsoft Teams neu Google Meet a hynny trwy gyfrif HWB yr athro a'r dysgwr. Mae Microsoft Teams yn gallu darparu profiad rhyngweithiol, a chyfle i gydweithio ac ymgysylltu mewn ffordd ddiogel a hygyrch.
- Dylai pob aelod o staff sy'n bwriadu cynnal gwers/gweithgaredd ffrydio byw fod wedi rhoi gwybod i'r aelod perthnasol o'r UDA (GMD). Ni ddylid cynnal cyfarfod/gwers/gweithgaredd ffrydio byw heb fod aelod o'r UDA yn ymwybodol.
- Dylid gweithredu'r polisi hwn ochr yn ochr â **pholisi Diogelu Ysgol Dyffryn Conwy**. Dylid delio â phob mater sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein yn yr un ffordd ag y byddech yn delio â mater sy'n ymwneud â dysgu wyneb-yn-wyneb. Os oes gennych chi unrhyw bryderon diogelu am blentyn, dylech eu trafod â'r Uwch Berson Dynodedig Amddiffyn Plant / Y Pennaeth gan sicrhau eich bod yn rhoi gwybod am eich pryderon gynted â phosib. (Os ydych chi'n meddwl bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl y funud honno, cysylltwch â'r heddlu ar 999.)
- Dylid gweithredu'r polisi hwn ochr yn ochr â **Pholisi Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-Dechnoleg Ysgol Dyffryn Conwy**. Dylid rhoi gwybod am achosion o gamddefnyddio bob amser. Mae gan athrawon ddyletswydd i roi gwybod os oes plentyn mewn perygl (gan gynnwys cam-drin ar-lein) o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cynllunio

Bydd cynllunio yn hollbwysig i sicrhau bod gwers sy'n cael ei ffrydio'n fyw yn wers lwyddiannus a diogel. Dylid:

- Ystyried pwrpas, manteision a chyfyngiadau gwers sy'n cael ei ffrydio'n fyw.
- Ystyried a yw dull arall yn fwy addas, e.e. os yw'r athro yn bwriadu dangos sut mae gwneud rhywbeth, efallai y byddai fideo yn fwy addas.



- Sicrhau bod hyd y gwersi sy'n cael eu ffrydio'n fyw yn addas ar gyfer eich dysgwyr.
- Sicrhau bod y wers yn cael ei chynllunio ymlaen llaw, a dylid rhoi digon o rybudd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr yn ôl yr angen.
- Sicrhau ein bod wedi derbyn caniatâd gan UDA yr ysgol i ffrydio gwersi'n fyw, a rhoi gwybod iddynt beth yw'r amserlen ar gyfer pob gwर्स.
- Sicrhau bod yr holl gynnwys yn briodol, ac ar gyfer unrhyw dasgau a fydd yn golygu gwneud ymchwil ar-lein, sicrhau bod y gwefannau'n addas cyn y wers.
- Dylid sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr fynediad at raglenni meddalwedd angenrheidiol – mae Hwb yn gallu hwyluso'r gwaith hwn.
- Os yw'r wers yn cynnwys tasgau, cofiwch y bydd angen mwy o amser ar rai dysgwyr o bosib.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â nodweddion Microsoft Teams / Google Meet, ac yn gwybod sut i ddefnyddio'r rhaglen yn effeithiol (mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghanolfan Cymorth Hwb).
- Dylid sicrhau nad yw unrhyw fyfyrwr/dysgwr sydd ddim yn rhan o'r wers ffrydio byw ar eu colled, ac na fydd effaith ar eu cynnydd oherwydd y ffaith nad ydynt wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r wers. Mae hyn yn hollbwysig oherwydd y pwyslais ar yr elfen wirfoddol. Oherwydd hyn, efallai y byddai angen ystyried ffordd amgen o osod gwaith ar eu cyfer hwy.
- Sicrhau agoriad a chlo effeithiol a chyfle i asesu'n ffurfiannol yn ystod y wers – gellir defnyddio'r bwtwm 'sgwrs' er mwyn annog dysgwyr i ymateb.

Lleoliad a gosodiadau'r Camera

Mae lleoliad a gosodiadau'r camera'n yn hollbwysig er mwyn sicrhau proffesiynoldeb. Rhaid i ymarferwyr addysg wneud y canlynol.

- Dewis lleoliad niwtral sy'n addas ac yn ddiogel. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis lleoliad priodol (e.e. ystafell fyw, stydi neu gegin). Mae Microsoft Teams / Google Meet yn eich galluogi i newid eich cefndir, neu ei wneud yn aneglur. Argymhellir eich bod chi a'ch dysgwyr yn defnyddio'r cyfleuster hwn.
- Ystyried yn ofalus beth sydd i'w weld o flaen y camera, h.y. gwnewch yn siŵr bod y cefndir yn edrych yn broffesiynol, ac nad yw'n cynnwys lluniau na gwybodaeth na ddylid eu rhannu neu a allai gael eu hystyried yn amhriodol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gofyn i 'gyfaill beirniadol' edrych beth sydd i'w weld o flaen y camera.
- Lleihau'r posibilrwydd y bydd anifeiliaid anwes neu aelodau o'u cartref eu hunain yn tarfu ar y wers.
- Bod yn ymwybodol na fydd yr holl ddysgwyr eisiau rhoi eu camera ymlaen – parchwch y dysgwyr, nid oes raid iddynt roi'r camera ymlaen.
- Annog y dysgwyr i weithio o fan addas, lle maen nhw'n teimlo'n gyfforddus, a gyda'u rhiant/ofalwr os yw'n bosib.
- Mae'n well defnyddio clustffonau gyda meicroffon (fel y rheini sydd ar gael gyda nifer o ffonau symudol) er mwyn clywed y sain yn glir.



YMDYGIAD PROFFESIYNOL

Dylai unrhyw waith ffrydio byw ddigwydd yn wirfoddol, a dylai ymarferwyr addysg sy'n dewis ffrydio'n fyw barhau i weithio mewn ffordd broffesiynol fel y byddent yn yr ystafell ddosbarth. Dylid sicrhau'r canlynol:

- Cadw at safonau proffesiynol o ran gwisg.
- Bod yn ymwybodol bod sylwadau'n cael eu clywed gan nifer o ddysgwyr mewn amgylchedd ar-lein, ac y byddai'n hawdd camddehongli'r sylwadau.
- Recordio'r wers gyfan ar y dechrau a sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o hyn.
- Athro i ddod â'r sesiwn i ben i bawb, gan wneud yn siŵr nad oes dysgwyr yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain a heb oruchwyliaeth mewn sesiwn ar ôl i'r athro adael.
- Bod yn ymwybodol o'r angen am gyfrinachedd; yn enwedig os ydych chi'n ffrydio gwers yn fyw o leoliad lle mae oedolion neu blant eraill yn bresennol.

Am resymau'n ymwneud â diogelu, gofynnwn fod POB cyfarfod/gwers/gweithgaredd ffrydio byw yn cael ei recordio drwy'r cyfleuster recordio sydd ar gael yn Microsoft Teams.

Gan fod recordiad ffrydio byw yn gyfystyr â data personol, rhaid cydymffurfio â pholisïau diogelu data yr ysgol a rheoliadau GDPR. Am hynny, ni ddylid rhannu'r recordiad gyda unrhyw ddysgwyr e.e. rhoi mynediad i rai nad oedd wedi gallu bod yn rhan o'r cyfarfod er mwyn iddynt allu dal i fyny. Os ydych chi'n bwriadu recordio gwers i'w rhannu â dysgwyr rywbryd eto, dylid gwneud hyn fel gweithgaredd anghydamserol heb ddysgwyr yn bresennol yn y recordiad.

Yn yr un modd, ni ddylid rhannu'r recordiad gyda chydaielodau o staff nag unrhyw oedolyn arall.

Dylid gwneud yn gwbl glir i'r dysgwyr/myfyrwyr ar ddechrau **pob** cyfarfod/gwers/gweithgaredd ei fod yn cael ei recordio. Er mwyn hwyluso hyn i chi, gallwch ddefnyddio'r sript isod ar ddechrau'r sesiwn:

*"Croeso i'r wers. Cyn i ni ddechrau, mae'n rhaid i mi sicrhau eich bod chi i gyd yn ymwybodol o'r canlynol:
Mae'r sesiwn yma yn cael ei recordio. Fe ddylech fod yn ymwybodol o hyn yn barod, gan fod hyn wedi ei wneud yn glir mewn llythyr i'ch rhieni ac yn yr e-bost wnaethoch chi ei dderbyn. Rydw i am ddechrau recordio y sesiwn yma rwan *PWYSO BOTWM RECORDIO*.
Cofiwch fod y cyfleoedd yma yn gwbl wirfoddol, ar eich rhan chi a minnau. Disgwylir eich bod yn parhau hyn i'r eithaf.
Nid oes hawl gan yr un ohonom i wneud recordiad personol o'r cyfarfod yma, nac ychwaith i dynnu llun o'r cyfarfod. Drwy 'screenshot' na thrwy ddyfais ar wahan".*



Disgwyliadau'r Dysgwyr

Dweud yn glir ar ddechrau pob sesiwn beth sy'n ddisgwyliedig a pha ymddygiad sy'n dderbyniol.

Dylid wneud y canlynol.

- Cyfleu'n glir y disgwylir ymddygiad 'o safon ystafell ddosbarth'.
- Gosod y disgwyliadau o'r cychwyn.
- Creu a chytuno ar reolau sylfaenol clir ac ar safonau ymddygiad, sy'n seiliedig ar bolisi ymddygiad presennol yr ysgol.
- Egluro'r rheolau wrth gyflwyno'r wers, e.e. pwy sy'n cael siarad, sut mae gofyn cwestiwn neu ofyn am help (Ar gyfer y dibenion hyn, gall y botwm 'raised hand' ar y bar fod yn ddefnyddiol). Wrth ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio, bydd modd ymgysylltu mewn ffordd strwythuredig.

Petai sefyllfa yn codi gyda myfyriwr/dysgwr yn ymddwyn yn amhriodol, neu wedi gwisgo'n amhriodol, mae modd tynnu rhywun o'r sesiwn fel a ganlyn:

- Agorwch y rhestr o bobl sy'n cymryd rhan (participants).
- Clicio'r X wrth ymyl enw'r person rydych am ei dynnu o'r sesiwn.

Petai rhywbeth amhriodol yn cael ei rannu ar y sgrin, dylai athrawon ddod â'r sesiwn i ben cyn gynted â phosib a chysylltu ar fyrder gyda'r Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant. Bydd trefniadau yn cael eu rhoi yn eu lle er mwyn cysylltu â'r holl ddysgwyr a oedd yn yr 'ystafell' cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad i egluro beth ddigwyddodd, a beth yw'r trefniadau ar gyfer dosbarthiadau yn y dyfodol.

Yn unol â'r canllawiau diogelu, byddai'n rhaid i chi ysgrifennu cofnod llawn ar ffurf datganiad yn ôl yr arfer.



RHESTR WIRIO STAFF

- Darllen ac ymgysgu â'r polisi hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r egwyddorion a'r disgwyliadau.
- Rhoi gwybod i EG am unrhyw wers sy'n cael ei drefnu, yn ogystal ag unrhyw newid i drefniadau/gwersi sy'n cael eu gohirio.
- Gwahodd yr holl ddysgwyr perthnasol i'r sesiwn mewn da bryd.
- Cofio mai gwirfoddol yw yr holl gyfleoedd hyn ar ran staff a myfyrwyr ac o'r herwydd peidio rhoi unrhyw bwysau ar fyfyrwr i fod yn rhan o'r wers. Yn yr un modd, caniatáu i fyfyrwr fod â'i gamera wedi ei ddiffodd wrth fod yn rhan o'r cyfarfod.
- Cynllunio a pharatoi'r wers gyda strwythur a chyfle i asesu'n ffurfiannol.
- Ystyried lleoliad a gosodiadau eich camera yn ofalus.
- Sicrhau fod pob gwers gyda myfyrwyr yn cael ei recordio at ddibenion diogelu.
- Gosod y disgwyliadau yn glir ar ddechrau pob gwers ynghyd ag atgoffa'r dysgwyr fod y wers yn cael ei recordio at ddibenion diogelu.
- Sicrhau na fydd sefyllfa un i un yn digwydd ar ôl i ddsbarth ar-lein ddod i ben, drwy bwysu'r bwtwm 'End Meeting' ar ddiwedd y wers.

DARLLEN PELLACH

<https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/ffrydio-byw/>

<https://hwb.gov.wales/support-centre/hwb-services/live-streaming/>

<https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/ffrydio-byw-a-fideogynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu>

<https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online/live-streaming-and-video-conferencing-safeguarding-principles-and-practice>



CYTUNDEB DYSGWYR/ MYFYRIWR : GWERSI FFRYDIO BYW
LEARNER / STUDENT AGREEMENT: LIVE STREAMING LESSONS

Enw Llawn : _____

Dosbarth : _____

Full Name

Class

Rydw i'n cytuno i / *I agree to :*

- Fod yn brydlon ar gyfer pob gwrs / *be punctual for all lessons;*
- Ceisio sicrhau fod gen i'r adnoddau a deunyddiau perthnasol ar gyfer pob gwrs ymlaen llaw / *Ensure that I have the relevant resources and materials to hand in advance ;*
- Dangos parch tuag at bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein / *Show respect for everyone in the online classroom;*
- Gwisgo'n addas ar gyfer pob cyfarfod, / *Dress appropriately for all classes*
- Gwneud yn siŵr fy mod yn mewngofnodi o leoliad addas, h.y. ystyried y cefndir, ongl y camera, preifatrwydd, ac ati / *Ensure the location you log in from is appropriate, i.e. give consideration to background, camera angle, privacy, etc.;*
- Ceisio cyfrannu at y dosbarth mewn ffordd gadarnhaol, peidio â tharfu ar unrhyw adeg / *Seek to contribute to the class in a positive manner and not be disruptive at any time;*
- Peidio creu na rhannu lluniau neu recordiad o'r cyfarfod / *Not create or share images or recordings of the meeting;*
- Cadarnhau fy mod yn ymwybodol y bydd pob gwrs/cyfarfod yn cael ei recordio gan yr ysgol at ddibenion diogelu. / *I confirm that I am aware that every online lesson/meeting will be recorded by the school for safeguarding purposes.*

Llofnodwyd : _____

Dyddiad : _____

(Signed)

(Date)

Llofnod Rhiant / Gwarcheidwad : _____

Dyddiad : _____

(Parent/Guardian)

(Date)